Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Heol Graigwen, Cymer, Porth
Rhondda Cynon Taf, CF39 9HA
Ffôn/Tel: 01443 680800

08.05.18

Rhieni / Gwarchodwr,

Arholiadau allanol Uwch Gyfrannol 2018

Ysgrifennwn atoch er mwyn eich hysbysu o drefniadau'r ysgol ar gyfer yr arholiadau allanol a gweddill y flwyddyn academaidd. Bydd cyfnod arholiadau allanol Uwch Gyfrannol yn cychwyn ar **15 Mai 2018** ac yn parhau dros gyfnod o fis. Mae gan fyfyrwyr Blwyddyn 12 ganiatâd i aros adref er mwyn adolygu am ddiwrnod yn unig cyn pob arholiad maent yn ei sefyll. Gan ein bod yn awyddus i fyfyrwyr dderbyn cymaint o gymorth yn yr ysgol â phosib cyn eu harholiadau, parheir gydag amserlen addysgu hyd at ddiwrnod cyn yr arholiad allanol. Yn ôl ein harfer, **nid oes yna gyfnod adolygu ffurfiol felly ar gyfer Blwyddyn 12**. Disgwylir i fyfyrwyr sy'n mynychu arholiad allanol wisgo'r wisg ysgol gywir er mwyn derbyn mynediad i sefyll yr arholiad.

Mae presenoldeb pob myfyriwr i bob arholiad yn holl bwysig a gofynnwn yn garedig i chi hysbysu'r ysgol am unrhyw absenoldeb yn ddiymdroi. Noder hefyd y codir ffioedd ar gyfer disgyblion sy'n colli unrhyw arholiad heb bapur meddygol swyddogol.

Trefniadau yn dilyn yr arholiadau UG

Bydd y myfyrwyr yn cychwyn ar gyrsiau Safon Uwch yn eu pynciau presennol yn syth wedi iddynt sefyll arholiadau'r pwnc. Yn dilyn y cyfnod arholiadau allanol mae'r ysgol hefyd wedi trefnu gweithgareddau amrywiol y Fagloriaeth Gymreig er mwyn sicrhau bod ein myfyrwyr yn llwyddo ym mhob haen o'r cymhwyster gwerthfawr hwn. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys wythnos ffurfiol o brofiad gwaith yn cychwyn ar **09.07.18 – 13.07.18** yn ogystal â gwaith cychwynnol ar gyfer eu ceisiadau Addysg Uwch. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhan annatod o gwricwlwm swyddogol y Chweched Dosbarth ac felly nid yw mynychu'r sesiynau hyn yn ddewisol. Rhaid i bob myfriwr sicrhau'r lefel uchaf o bresenoldeb a phrydlondeb yn ystod y cyfnod hwn er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddo i gyrraedd ei botensial.

Llwybrau Dysgu'r Myfyrwyr

Bydd mynediad Blwyddyn 12 i Flwyddyn 13 yn ddibynnol ar nifer o wahanol ffactorau gan gynnwys; adroddiad gan yr adrannau a'r tiwtoriaid dosbarth, lefelau presenoldeb y myfyrwyr, a'u presenoldeb a'u gwaith ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig (yn dilyn yr arholiadau allanol), yn ogystal â'u hymddygiad ac ymdrech yn ystod y flwyddyn. Er mwyn sicrhau'r safonau uchaf, caiff pob myfyriwr gyfweliad ar ddechrau Blwyddyn 13, ar ôl iddo dderbyn ei ganlyniadau allanol, er mwyn trafod ei opsiynau a'i lwybrau dysgu unigol, gan gynnwys parhau gyda'i astudiaethau pellach yn yr ysgol. Fe fydd hyn hefyd yn cynnwys cyfweliad ffurfiol ar gyfer unrhyw fyfyrwyr sydd eisiau dychwelyd i flwyddyn 12eg.

Hoffwn ddymuno pob hwyl i'r myfyrwyr gyda'r paratoadau a'r adolygu terfynol, a hyderwn bydd yr oriau o waith sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn talu ar eu canfed erbyn yr arholiadau.

Yn gywir,

Mr Osian Griffith
Arweinydd Cynnydd CA 5

Ms Rhian Morgan Ellis
Pennaeth

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen, Cymer, Porth
Rhondda Cynon Taf, CF39 9HA
Ffôn/Tel: 01443 680800

08.05.18

Dear Parent / Guardian,

Advance Subsidiary External Examinations 2018

We write to inform you of the school's arrangements for the external examinations and for the remainder of the academic year. The AS Level examination period will commence on **15 May 2018** and will continue over a period of a month. Year 12 students are allowed to stay at home to revise for one day only before each examination they sit (unless a Monday examination is allocated – in such cases, no revision day is provided). As we are eager for students to receive as much help as possible in school before each of their examinations, the teaching timetable will continue as usual up to one day before the external examination. **Year 12 will therefore not be allocated specific study leave.** Students attending an external examination are expected to wear correct school uniform in order to be allowed access to sit the examination.

Attendance to every examination is essential and we kindly ask that if any student is unable to attend an examination for whatever reason that we are informed as soon as possible. Please note that fees will be charged for pupils who miss any examination without an official medical note.

Arrangements following the AS examination period

Students will start their Advanced Level courses in their existing subjects immediately after the subject's AS examination. Following the period of examinations the school has organized various Welsh Baccalaureate activities for students to ensure that they succeed at every tier of this valuable qualification. The activities include an official week of work experience commencing on **09.07.18 – 13.07.18** and preparatory work on the students' Further / Higher Education applications. These activities are an integral part of the official Sixth Form curriculum and therefore attendance to these sessions is mandatory. All students must ensure the highest level of attendance and punctuality during this period to ensure that they succeed to reach their potential.

Student's Learning Pathways

Students' progression to Year 13 will depend on a number of factors including a report from their subjects and class tutors, their attendance levels and their work during the Welsh Baccalaureate activities (following the external examinations), as well as their behaviour and effort during the year. In order to ensure that the highest possible standards are met, each student will also be interviewed at the start of Year 13, after they receive their external examination results, to discuss their options and their individual learning pathways, including their suitability to continuing with their studies at the school. This will also include a formal interview for any students wishing to reapply for year 12. We wish our students all the best with their final preparations and revision, and we trust that the hours of work undertaken over the past year will lead to success in the examinations.

Yours Sincerely,

Mr Osian Griffith
KS 5 Progress Leader

Ms Rhian Morgan Ellis
Head